



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Strategol / Strategic Headteacher: Mr R. Clive Williams  
Pennaeth Gweithredol / Acting Headteacher: Mr Gareth Ll. James

### **Mabolgampau'r ysgol** – dydd Llun, Gorffennaf 6ed (7fed a'r 9fed yn ddyddiadau wrth gefn)

Cynhelir y mabolgampau ar gaeau'r Ysgol Gymraeg a Phenweddig. Mi fydd y gweithgareddau yn cychwyn am 12.45 i Flynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 ac am 1 o'r gloch i'r Meithrin a'r Derbyn.

Gofynnir yn garedig i rieni'r Meithrin a'r Derbyn gasglu eu plant o'r cae tua 2.45 os oes modd. Mi fydd gweddill y disgyblion yn dychwelyd i'r dosbarth ar ddiwedd y mabolgampau i gasglu eu bagiau / llyfrau cyn dychwelyd adref yr un modd ag arfer (rhieni i'w casglu ger y gât).

Mi fydd rhieni Blynnyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn symud o gwmpas y gweithgareddau gyda'r plant. Rydym yn pwysleisio'r angen i rieni i gefnogi'n gall ac i beidio ag ymyrryd mewn unrhyw gystadleuaeth.

Mi fydd raffl ar werth wrth y fynedfa, defnyddir yr arian i gyfrannu at wella adnoddau Addysg Gorfforol yr ysgol.

**RAS I RIENI** - mi fydd ras gyfnewid arbennig i rieni / warcheidwaid. Mi fydd angen tîm o tua 8 ar bob blwyddyn er mwyn pasio pêl ar ffurf ras gyfnewid o gwmpas trac Penweddig. Mi fydd angen i bob unigolyn redeg tua 50 metr. Cynrychiolwyr y Gymdeithas Rieni o bob blwyddyn fydd yn trefnu'r timau.

**Cyngerdd Proms Ceredigion yn y Neuadd Fawr** – Mi fydd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y Proms ar nos Fawrth, Gorffennaf 7fed am 7 o'r gloch yn y Neuadd Fawr. Mae yna ymarfer ar gyfer Cerddorfa Ceredigion yn ystod y dydd Mawrth rhwng 10.00 a 3.30. Os fydd y mabolgampau yn cael eu gohirio ddydd Llun ac yn cael eu cynnal ddydd Mawrth yna mi fydd bws yn casglu disgyblion yr Ysgol Gymraeg o'r Neuadd Fawr am 12.00 er mwyn dod i'r mabolgampau (rydym wedi cytuno hyn gyda Mr Geraint Evans o'r Adran Addysg) Cofiwch fod angen pecyn bwyd.

**School Sports** – Monday, July 6<sup>th</sup> (7<sup>th</sup>, and 9<sup>th</sup> are reserve dates) The sports will be held at Ysgol Gymraeg and Penweddig fields. The activities will commence at 12.45 for years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 and at 1 o' clock for Nursery and Reception.

**Nursery and Reception** parents are kindly asked to collect their children from the field at around 2.45 if possible. The remainder of the pupils will return to class at the end of the sports to collect bags / books before returning home as usual (parents to collect children at the school gate).

Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 parents will be moving around the activities with their children. We emphasise that parents should not get involved in these activities and should support in an appropriate manner. A raffle will be available at the gate – money raised will be used to contribute towards the cost of improving the school's P.E. equipment.

**RACE FOR PARENTS** - there will be an opportunity for parents / guardians to take part in a special relay race. A team of around 8 will be needed from each year in order to pass a ball around the Penweddig track in the form of a relay race. Each individual will need to run around 50 metres. Representatives from the P.T.A. will arrange the teams.

**Ceredigion Proms Concert at the Great Hall (7 o'clock)** – many pupils will be performing in the Proms concert at the Great Hall on Tuesday evening, July 7<sup>th</sup> at 7 o'clock. A rehearsal has been arranged for the Ceredigion Orchestra from 10.00 to 3.30 on Tuesday. If the school sports is postponed on the Monday and re-arranged for Tuesday then a bus will collect Ysgol Gymraeg Pupils from the Great Hall at 12.00 in order to return to the sports (this arrangement has been agreed with Geraint Evans from the Education Authority – please remember a packed lunch).

**R C Williams, Pennaeth Strategol**